

Celf y Tir

Trosolwg

Diben y gweithgareddau cysylltiedig hyn yw creu darn o waith celf y tir.

Bydd y disgyblion yn:

- Dod o hyd i wybodaeth am gelf y tir, gan ymchwilio i artistiaid y tir ac enghreifftiau o gelf y tir
- Casglu syniadau, gwybodaeth a deunyddiau o'r tu allan i'w defnyddio yn eu gwaith celf
- Cynllunio ac ymweld â safle awyr agored
- Creu eu darn o waith celf y tir eu hunain
- Dogfennu, arddangos ac ysgrifennu am eu gwaith

Cyfoethogi

- Artistiaid, ffotograffwyr, gwneuthurwyr ffilmiau, awduron (amgylcheddol)

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Dyma'r prif feysydd o'r cwricwlwm presennol y mae'r gweithgaredd cyfoethog hwn yn ymdrin â hwy:

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh): Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd Digidol a TGCh: Sgiliau: FAI1; CCI1-3, Ystod Bwledi 2,4,5,6,8

Celf a dylunio: Sgiliau: U1-3; I1-3; M1-3

ABCh: Sgiliau WWO1,4-6; IOL1-4, Ystod AC1,4,8; MSD1,4

Efallai y bydd cyfleoedd i ddatblygu meysydd eraill o'r cwricwlwm, yn dibynnu ar leoliad y man awyr agored.

Adnoddau sy'n cael eu cynnwys gyda'r gweithgaredd hwn

1. Adnodd 1: Enghreifftiau o Gelf y Tir (*Sand Circles* gan Marc Treanor a *Woollen Line* gan Pip Woolf)
2. Adnodd 2: Ymateb i lluniau
3. Adnodd 3: Gwaith ysgrifennu ar Gelf y Tir – Gwybodaeth am Marc Treanor
4. Adnodd 4: Gwaith ysgrifennu ar Gelf y Tir – Gwybodaeth am Pip Woolf

Adnoddau y mae angen sicrhau eu bod ar gael

Mynediad i gyfrifiadur a'r rhyngwrwyd
Offer ffotograffig – camera digidol, trybedd, iPad

Paratoi

Dewiswch fan yn yr awyr agored i'r dysgwyr ymweld ag ef. Dylai fod yn rhywle lle y gallan nhw dynnu lluniau, casglu pethau naturiol a gweithio yn y dirwedd. Os nad yw hynny'n bosibl, gallwch ddefnyddio tir yr ysgol.

Argraffwch ddigon o gopiâu o Adnoddau 1 a 2 i'w rhannu mewn parau neu mewn grwpiau o 4. Fel arall, tafluniwch y lluniau ar y bwrdd gwyn. Efallai yr hoffech drefnu gweithgaredd mat bwrdd <http://pdst.ie/sites/default/files/Placemat%20Technique.doc> - neu drefnu gweithgaredd carwsél, gan drefnu byrddau gyda'r taflenni/awgrymiadau a ddewiswyd o Adnodd 2 a defnyddio nodiadau post-it.

Celf y Tir – Gwybodaeth Gefndir

Celf y tir yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio gwaith celf sydd wedi'i wneud yn y dirwedd neu o'r dirwedd, lle mae cysylltiad rhwng celf a'r amgylchedd/natur. Fe'i gelwir weithiau yn gelf y ddaear ac mae'n cyfeirio at waith celf sydd wedi'i saernïo neu ei gerfio o ddeunyddiau naturiol megis pridd, tywod, carreg (bowlteri, cerrig), logiau, canghennau, dail, brigau, gwllân, dŵr, ac iâ. Yn aml, gwaith dros dro fydd gwaith celf y tir, felly caiff ei ddogfennu drwy ffotograffau a gaiff eu harddangos mewn oriel gelf. Weithiau, gwneir y gwaith celf yn yr oriel, gan ddefnyddio deunyddiau o'r dirwedd.

Dechreuodd symudiad celf y tir yn y 1960au a'r 70au.

Byddai artistiaid cyfoes sy'n gysylltiedig â Chelf y Tir fwy na thebyg wedi bod yn arlunwyr tirwedd gan mlynedd yn ôl. *'But we don't want to make portraits of the landscape. A landscape picture is a portrait. We don't want that. We want to be in the land.'* – David Nash

Tasg 1: Beth yw celf y tir?	Cydweithredu ac Adnoddau	Llwybrau cynnydd posibl y FfLIRh
<p>○ EDRYCHWCH ar yr enghreifftiau o gelf y tir a geir yn y dolenni yn y golofn adnoddau gyferbyn ac yn y taflenni adnoddau. Ymchwiliwch i'r hyn sy'n gyffredin rhyngddynt.</p> <p>TRAFOD</p> <p>○ Allwch chi feddwl am unrhyw waith celf yn y dirwedd (hynafol neu fodern?)</p> <p>○ Sut mae artistiaid yn portreadu'r tir a'r tirweddau yn draddodiadol? Sut mae Celf y Tir yn wahanol?</p> <p>○ Pam y caiff ei alw'n Gelf y Ddaear weithiau yn eich barn chi?</p> <p>○ Pa waith celf <i>arall</i> y gellir ei ganfod yn y dirwedd (e.e. cofgolofnau, cerfluniau)</p> <p>YSTYRIED/ARCHWILIO</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Deunyddiau a ddefnyddir gan artistiaid y tir ○ Ble maen nhw'n gwneud eu gwaith celf ○ Ble caiff y gwaith ei arddangos ○ Geiriau i ddisgrifio'r gwaith celf 	<p>Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi cyfle i gydweithio ag artist/ffotograffydd</p> <p>Mae gwefan Tate yn fan cychwyn gwych ar gyfer athrawon</p> <p>http://www.tate.org.uk/learn/online-resources/glossary/l/land-art</p> <p>Pecyn Athrawon ar Gelf y Tir</p> <p>http://artscouncilcollection.org.uk/file/18693/download</p> <p>http://artscouncilcollection.org.uk/learning-research/uncommon-ground-land-art-britain-1966-1979</p> <p>Andy Goldsworthy Lluniau o'i waith https://www.flickr.com/groups/andygoldsworthy/pool/ Gwybodaeth am yr artist – wedi'i anelu at blant – lluniau a fideos www.culturestreet.org.uk/artstreet/artist.php?id=1</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLG1: gwranddo ar eraill LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Darllen DS5: cipddarllen (sgimio) a llithr ddarllen (sganio) DS8: testunau ar sgrin DD3: codi gwybodaeth DD6: adnabod syniadau DYD6: ystyried a yw testun yn effeithiol</p>

<p>(Iliw/siâp/gwead/maint/patrwm)</p> <ul style="list-style-type: none">○ Hoff artistiaid tir – rhowch resymau dros eich dewis(iadau). <p>Dewch â'r dasg i ben drwy ysgrifennu diffiniad dosbarth o Gelf y Tir a phenderfynwch ar y ffordd orau o arddangos y diffiniad.</p>	<p>David Nash David Nash: A Place in the Wood – Pecyn celf a/neu lyfr i blant gan Carolyn Davies a Lynn Bebb (£6) http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9781848510975</p> <p>Fideo, cyfweiliad, ac adolygiad gan blant: http://www.culturestreet.org.uk/channel_artist.php?channel=art&id=3.</p> <p>Pecyn athrawon http://www.landshapes.org/newsandevents/news/documents/teachersresourcepackcompressed.pdf</p> <p>Erthygl https://gerryco23.wordpress.com/2010/08/06/david-nash-at-ysp/</p> <p>Richard Long http://www.richardlong.org a dolenni i luniau http://www.richardlong.org/Documentations/documentations.html</p> <p>Richard Keating http://www.walkingtheland.org.uk/wordpress/artists-pages/richard-keating/</p> <p>Robert Smithson http://www.robertsmithson.com</p> <p>Celf y Tir yng Nghymru Celf y tir yng Nghymru a ganfuwyd drwy chwilio google =</p>	<p>Ysgrifennu YY1: ysgrifennu at ddibenion gwahanol YY4: cyflwyno gwaith YI1: defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu YI2: defnyddio geiriau penodol sy'n ymwneud â phwnc eu hysgrifennu</p>
--	--	--

Tasg 2: Edrych yn fanylach at Gelf y Tir yng Nghymru	Cydweithredu ac Adnoddau	Llwybrau cynnydd posibl y FFLIRh
<p>Nod y dasg hon yw canolbwyntio ar waith dau artist y tir sy'n gweithio yng Nghymru</p> <p>EDRYCHWCH ar y lluniau ar Daflen Adnodd 1 mewn parau/grwpiau bach.</p> <p>Cymharwch arddull a nodweddion gwaith Marc a Pip a chofnodwch eich syniadau ar ddiagram Venn gyda dau gylch.</p> <p>NEU</p> <p>Defnyddiwch yr awgrymiadau a'r gweithgaredd mat bwrdd yn Adnodd 2 i dywys ymatebion y disgyblion i'r lluniau. (Gwnewch ddigon o gopiâu ar gyfer pob grŵp/pâr).</p> <p>http://pdst.ie/sites/default/files/Placemat%20Technique.doc</p> <p>Rwy'n gweld... (defnyddiwch hwn i annog gwaith arsylwi agosach a manylach). Defnyddiwch eiriau i ddisgrifio'r gwaith celf – e.e. mawr, bach, cynyddu, lleihau, cerflun, cydbwysedd, harmoni, cymesuredd, lliw, gwead, deunyddiau.</p>	<p>Adnodd 1 Enghreifftiau o Gelf y Tir gan Marc Treanor a Pip Woolf. (Mae Adnoddau 3 a 4 yn rhoi gwybodaeth am yr artistiaid a'u gwaith a allai fod yn wybodaeth gefndir ddefnyddiol ar gyfer yr athro ar y cam hwn – gellir eu defnyddio yn ddiweddarach yn y gweithgaredd gyda myfyrwyr.)</p> <p>Marc Treanor Yn aml yn gweithio gyda lluniau sy'n seiliedig ar batrymau geometrig ym myd natur...ac wedi'i ysbrydoli gan gylchoedd cnydau. Yn cynnwys enghreifftiau treigl amser. www.sandcircles.co.uk</p> <p>Mae'r fideo (gwyliwch o 1 munud 10 eiliad) yn dangos prosiect ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a oedd yn 60m o ran diamedr. Cafodd amlinelliad o'r DU ei chwyddo drwy ddefnyddio grid, yn gyntaf ar bapur ac yn ddiweddarach ar dywod. Cymerodd 6 awr i'w gwblhau. https://www.youtube.com/watch?v=ceBTWrWcjgw</p> <p>Pip Wolf (Cylchoedd llystyfiant yw'r cylchoedd sydd i'w gweld yn y llun)</p> <p>Clip YouTube yn dangos golygfeydd o'r awyr, yn ogystal â gwaith ar y ddaear. (Efallai yr hoffech ddefnyddio'r lluniau heb y sain) https://youtu.be/55h-fOs-A5g</p> <p>Cefndir i athrawon https://woollenline.wordpress.com/ - gweler yr adran ar 'A Woollen</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLG1: gwranddo ar eraill LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Darllen DS2: ystod o strategaethau darllen DS3: darllen testunau cymhleth yn annibynnol DS5: cipddarllen (sgimio) a llithr ddarllen (sganio) DS8: testunau ar sgrin DD3: codi gwybodaeth DD4: dehongli syniadau DD6: adnabod syniadau</p> <p>Ysgrifennu YY1: ysgrifennu at ddibenion</p>

<p>Ble mae'r gwaith celf? Disgrifiwch yr amgylchedd.</p> <p>Rwy'n teimlo...(adweithiau/teimladau) Nodwch ymatebion a theimladau am y gwaith....rhaf'r disgyblion a'r artist.</p> <p>Rwy'n meddwl... (syniadau, meddyliau a barn – am sut y gwnaeth yr artist y gwaith a pham.) A yw'n waith dros dro neu'n barhaol a sut bydd y gwaith yn newid dros amser?</p> <p>Rwy'n meddwl tybed ...(anogwch y myfyrwyr i greu cymaint o gwestiynau â phosibl) A oes modd trefnu/didoli'r cwestiynau'n grwpiau?</p> <p>TRAFODWCH/ADRODDWCH eich ymatebion wrth weddill y dosbarth.</p> <p>Lluniwch brif dabl o ymatebion sy'n dwyn ynghyd holl ymatebion y grŵp ac sy'n crynhoi'r pethau sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y gwaith.</p> <p>Ystyriwch y patrymau a'r siapiau a welir mewn gwaith Celf y Tir a pham mae artistiaid y tir yn defnyddio'r siapiau hyn.</p>	<p>Line'</p> <p>Erthygl o'r Guardian blog/2013/apr/17/woollen-line-pip-woolf</p> <p>Fideo o safbwyntiau gwirfoddolwyr a'r broses o greu'r 'Woollen Line' https://m.youtube.com/watch?v=i7Tx1QZ9SHs</p>	<p>gwahanol</p> <p>Y11: defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu</p> <p>Y12: defnyddio geiriau penodol sy'n ymwneud â phwnc eu hysgrifennu</p>
---	---	--

<p>Tasg 2b: Edrych yn Fanylach ar Gelf y Tir yng Nghymru</p>	<p>Cydweithredu ac Adnoddau</p>	<p>Llwybrau cynnydd posibl y FflIRh</p>
<p>YSTYRIWCH faint gwaith Marc Treanor a Pip Woolf mewn bywyd go iawn.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Amcangyfrifwch fesuriadau, gan ddefnyddio cliwiau yn y ffotograff 'Sandcircle' ○ Cyfrifwch y raddfa. Os yw pob un o'r llinellau gwlan yn 300m o hyd ar gyfartaledd, faint yn fwy yw'r gwaith celf mewn bywyd go iawn o gymharu â'r llun? ○ Sut y gellid mynegi hyn fel graddfa? Trafodwch y proses(es) sy'n gysylltiedig â chyfrifo'r ateb... ac os/sut y gellid gwirio'r ateb. <p>GWAITH ESTYNEDIG</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Trafodwch: y sgiliau rhifedd y gallai'r 2 artist hyn fod wedi gorfod eu defnyddio? (<i>Er enghraifft: Marc Treanor – chwyddo ('scaling up'), amseroedd y llanw ac ati; Pip Woolf – mesur hyd y llinell, penderfynu faint o wlan sydd ei angen – pwysau, a maint, cyfrifiadau ar gyfer trosglwyddo'r gwlan i ben y mynydd a'r amser dan sylw/nifer y cynorthwywyr sydd eu hangen.</i>) <p>Sut y gallai'r dosbarth fynd ati i greu darn o waith</p>	<p>Defnyddiwch daflen Adnodd 1 i amcangyfrif maint y cylch tywod a graddfa llun 'The Woollen Line'. Cymharwch faint y gwaith celf â maint y llun</p> <p>Mae gwaith celf cylchoedd tywod Marc Treanor yn amrywio o 20 m i 60 m https://www.youtube.com/watch?v=ceBTWrWcjgw</p> <p>Mae gwaith Pip Woolf ar ochr mynydd Pen Trumau ym Mannau Brycheiniog (cyfeirnod grid SO 20295 – 29405 -29405). Mae'r 'Woollen Line' tua 300m o hyd.</p> <p>Noder: Cylchoedd llystyfiant yw'r cylchoedd sydd i'w gweld yn y llun.</p>	<p>Rhifedd Datblygu ymresymu rhifyddol CA2.1: trosglwyddo sgiliau CA2.2: adnabod camau CA2.3: technegau priodol CA2.4: strategaethau meddwl ac ysgrifenedig CA211: egluro canlyniadau CA217: strategaethau gwirio CA218: dehongli atebion CA219: dod i gasgliadau Defnyddio sgiliau rhif Rh2: darllen/ysgrifennu rhifau Rh5: lluosu Rh6: lluosu rhifau â 10 a 100 Rh9: cywerthedd ffracsiynau, degolion/% Rh10: canrannau Rh13: lluosu a rhannu Rh15: amcangyfrif drwy dalgrynnu Rh18: elw a gwerth am arian Defnyddio sgiliau mesur M1: clorian M10: chyfrifo arwynebedd</p>

<p>Celf y Tir ar raddfa enfawr? Sut y byddech yn cynllunio/paratoi ar gyfer eich gwaith yn yr awyr agored? Gallech adael i'r disgyblion ddefnyddio'r Offeryn Dysgu Ôl-traed Metawybyddol i gynllunio.</p>		
--	--	--

Tasg 3: Gwneud Gwaith yn yr Awyr Agored	Cydweithredu ac Adnoddau	Llwybrau Cynnydd y FfLIRh
<p>Nod y dasg yw creu Celf y Tir yn y dirwedd gan ddefnyddio deunyddiau naturiol. Mae'n ymwneud â thaith i safle, gardd, traeth neu gefn gwlad lleol neu dir yr ysgol).</p> <p>Darparwch fagiau casglu a chamerau digidol neu defnyddiwch ffonau symudol i dynnu ffotograffau os yn bosibl.</p> <p>Dylai'r gweithgaredd hwn roi cyfle i ymchwilio i agweddau gwahanol ar rifedd mewn ffordd naturiol e.e. mesuriadau – perimedr, uned, cywirdeb, offer mesur, amser, cyfeirnodau grid ac ati.</p> <p>TRAFOD A CHYNLLUNIO</p> <p>Mewn grwpiau bach, cynlluniwch y darn o waith celf y tir rydych am ei greu. Meddyliwch am y deunyddiau y bydd eu hangen arnoch.</p> <p>Sut y byddwch yn dogfennu'r canlyniad? (A fyddwch yn dogfennu'r <u>broses</u> – e.e. cyfleoedd ar gyfer ffotograffeg treigl amser)</p>	<p>Cyfle i ysgolion gydweithio ag artist/ffotograffydd/gwneuthurwr ffilmiau</p> <p>Dewch o hyd i oriel gelf yn eich ardal chi ar http://collectorplan.arts.wales/arts-in-wales/collectorplan/orielau-syn-aelodau?diablo.lang=cym neu chwiliwch am artist yng nghyfeiriadur Cyngor y Celfyddydau http://www.arts.wales/arts-in-wales/cyfeiriadur-celf?diablo.lang=cym neu drwy http://www.axisweb.org/</p> <p>Fideos a phhecyn addysgu ar ddefnyddio deunyddiau a gesglir yn yr awyr agored.</p> <p>http://www.culturestreet.org.uk/teachers/found_materials/index.php</p> <p>http://www.culturestreet.org.uk/teachers/found_materials/found_materials.pdf</p> <p>http://www.culturestreet.org.uk/activities/treesandtides/</p>	<p>Llythrennedd</p> <p>Llafaredd</p> <p>LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau</p> <p>LLS3: sgwrs fwy estynedig</p> <p>LLG1: gwranddo ar eraill</p> <p>LLG3: ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a'r camau nesaf</p> <p>LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth</p> <p>LLC2: siarad yn bwrpasol</p>

Ar leoliad

RHANNWCH eich arsylwadau a gnewch nodiadau am unrhyw aroglau a synau; syniadau am sut rydych yn teimlo am y gwagle.

CASGLWCH wrthrychau i'w defnyddio yn eich gwaith celf y tir neu syniadau ynghylch sut y gallech newid y dirwedd.

GWNEWCH ddarn o waith celf y tir o'ch gwrthrychau – neu drwy greu marciau ar y tir...

Allwch chi:

- Ddod o hyd i bethau sy'n edrych yn ddiddorol...i'w cydbwyso ar ben ei gilydd?
- Defnyddio pethau o'r tir i ddal eich gwrthrychau at ei gilydd? (pinio, lapio, plygu)
- Trefnu eitemau yn ôl siâp, lliw, gwedd, neu faint?
- Creu cerflun..rhwbiad...symudyn ('mobile')?
- Defnyddio lliwiau naturiol?
- Cyfuno neu leoli pethau mewn ffyrdd anarferol/annisgwyl?
- Gweithio ar raddfa enfawr neu ar raddfa fach iawn?
- Defnyddio coeden fel llwyfan ar gyfer gosod y gwaith celf?

<p>ARFARNWCH waith celf y tir eich gilydd – trafodwch yr hyn rydych yn ei hoffi am bob un a sut y gellid eu gwella.</p> <p>DOGFENNU</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Gallech dynnu ffotograff, ffilmio neu ddarlunio'r gwaith celf gorffenedig. ○ Trafodwch sut y gallech wneud y ddogfennaeth yn atyniadol a/neu'n hardd. <p>GWAITH ESTYNEDIG</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Gofynnwch i'r myfyrwyr ddymchwel eu gwaith celf a rhoi'r darnau yn ôl at ei gilydd, gyda phartner, i greu darn newydd. ○ Ailadroddwch y broses, ymunwch â mwy o bobl i wneud cerflun dosbarth arall, sydd hyd yn oed yn fwy o bosibl? 		
--	--	--

<p>Tag 4: Rhannu ein Gwaith Celf – dogfennu ac arddangos</p>	<p>Cydweithredu</p>	<p>Llwybrau cynnydd y FfLIRh</p>
<p>TRAFODWCH – Pam mae rhai artistiaid am wneud gwaith sydd dros dro neu ddim yn barhaol (fel 'Sand Circles' Marc Treanor), tra bod artistiaid eraill yn creu gwaith sy'n para (e.e. cerfluniau, cofgolofnau rhyfel, cerfluniau celf gyhoeddus)?</p>	<p>Cyfle i ysgolion gydweithio gydag artist/ffotograffydd/gwneuthurwr ffilmiau</p> <p>Dewch o hyd i oriel gelf yn eich ardal chi yn http://collectorplan.arts.wales/arts-in-wales/collectorplan/orielau-</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLG1: gwranddo ar eraill</p>

Mae rhai artistiaid yn tynnu ffotograffau o'u gwaith ac yn arddangos y lluniau mewn orielau. Mae artistiaid hefyd yn dogfennu eu syniadau mewn llyfrau ac ar ffilm a hefyd yn eu rhannu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

TRAFODWCH, cynlluniwch a phenderfynwch sut y byddwch yn rhannu eich gwaith celf gydag eraill. Gallech ddewis o'r canlynol:

- Arddangosfa o ffotograffau
- Powerpoint – lluniau symudol neu sleid neu drosllais
- creu cardiau post (Defnyddiwch lungopiwr a lleihau'r maint)
- llyfr – sy'n cyfuno llun â thestun
- blog

YSGRIFENNU

Gan ddefnyddio'r lluniau a'r atgofion o greu gwaith celf yn y dirwedd, ewch ati i greu darn o waith ysgrifennu am y gwaith celf – neu wedi'i ysbrydoli gan y gwaith celf. Gallai hyn fod ar ffurf:

- Testun cerdyn post
- Testun arddangosfa
- Cerdd
- Cofnod mewn dyddiadur
- Erthygl Papur Newydd

[syn-aelodau?diablo.lang=cym](http://www.arts.wales/arts-in-wales/cyfeiriadur-celf?diablo.lang=cym)

neu chwiliwch am artist ar gyfeiriadur Cyngor y Celfyddydau <http://www.arts.wales/arts-in-wales/cyfeiriadur-celf?diablo.lang=cym> neu drwy gyfrwng <http://www.axisweb.org/>

Cysylltwch â Ffotogallery i gael gwybodaeth am ffotograffwyr <http://www.fffotogallery.org/cy/dysgu/projectau>

Cysylltwch â Ffilm Cymru ar gyfer gwneuthurwyr ffilmiau <http://www.fffilmcymruwales.com/index.php/cy/>

Gallech ddod o hyd i awdur drwy <http://www.literaturewales.org/rhestr-o-awduron/>

Templed cefn cerdyn post http://www.primaryresources.co.uk/english/pdfs/postcard_template

LLG3: ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a'r camau nesaf
LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth
LLC2: siarad yn bwrpasol

Ysgrifennu

YY1: ysgrifennu at ddibenion gwahanol
YY3: defnyddio amrywiaeth o strategaethau i gynllunio ysgrifennu
YY4: archwilio gwahanol ffyrdd o gyflwyno gwaith
YY5: ystyried, golygu ac ailddrafftio
YS5: defnyddio nodweddion a diwyg sydd wedi'u llunio er mwyn cyflwyno data a syniadau'n glir
YI1: defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu
YI2: defnyddio geiriau penodol sy'n ymwneud â phwnc eu hysgrifennu

<p>➤ Adroddiadau/adolygiadau o waith eich gilydd</p> <p>Ystyriwch y diben, y gynulleidfa a geirfa dechnegol briodol.</p>	<p>.pdf</p> <p>Chwiliwch yn Google am: 'Making a personalised photo book'</p> <p>Gallech ddod o hyd i awdur i weithio gyda'r disgyblion ar y dasg hon drwy http://www.literaturewales.org/rhestr-o-awduron/</p> <p>Er mai gwybodaeth gefndir i'r athrawon yw Adnoddau 3 a 4 gellid eu defnyddio hefyd i ymarfer strategaethau darllen – asesu'r math o destun, canfod gwybodaeth o gipddarllen, dod o hyd i ffeithiau o lithr ddarllen ac ati) a threfnu'r gweithgaredd ysgrifennu.</p> <p>e.g. Dod o hyd i wybodaeth am: Ddeunyddiau, lliwiau, gwead, siâp, Ble, sut a pham y gwnaed y gwaith celf... Os/sut y bydd yn newid dros amser</p>	<p>YG1: defnyddio strwythurau brawddeg amrywiol</p> <p>YG3: defnyddio'r ystod gyfan o atalnodi'n gywir</p> <p>YG5: sillafu geiriau aml eu defnydd yn gywir</p>
--	--	--

Tasg 7: Rhoi Pris ar Waith Celf	Cydweithredu	Llwybrau cynnydd y FflIRh
<p>Mae artistiaid yn aml yn gwerthu eu gwaith celf i bobl eraill.</p> <p>TRAFODWCH: Yn eich barn chi, beth fydd cost y deunyddiau i greu eich gwaith celf ...</p>	<p>Cyfleoedd i ymchwilio ar y we, costau fframiau, printiau ac ati</p>	<p>Rhifedd Datblygu ymresymu rhifyddol CA2.1: trosglwyddo sgiliau CA2.2: adnabod camau CA2.3: technegau priodol CA2.4: strategaethau meddwl ac ysgrifenedig CA211: egluro canlyniadau</p>

<p>ei gofnodi... ei arddangos? (Ystyriwch: gywirdeb ac amcangyfrif. Cost fesul m².)</p> <p>Faint o amser a gymerwyd i wneud y gwaith celf? Beth fyddai cyflog teg ar gyfer y gwaith hwn yn eich barn chi? (eglwirwch eich rhesymu)</p> <p>Pe baech am wneud 10% o elw, am ba bris y byddai angen i chi werthu'r gwaith?</p> <p>CRÛWCH ffordd o ddangos cost wirioneddol eich gwaith celf y tir, e.e. diagram, siart bar neu gylch. Ceisiwch gynnwys y pethau canlynol: cost y deunyddiau, ei gofnodi a'i arddangos. Ychwanegwch swm ar gyfer eich ffi/amser fel artistiaid a thrafnidiaeth os bydd angen.</p> <p>Weithiau bydd artistiaid yn derbyn arian grant a nawdd i'w helpu i greu eu gwaith.</p> <p>TRAFODWCH sut mae artistiaid y tir yn gwerthu eu sgiliau ac yn ariannu eu gwaith celf drwy gomisiynau; ffotograffau a ffilmiau; gwneud cardiau. Trafodwch sut mae hyn yn wahanol os ydych yn gwneud gwaith celf dros dro, fel y cylchoedd tywod yn hytrach na gwaith celf mwy parhaol.</p>		<p>CA217: strategaethau gwirio CA218: dehongli atebion CA219: dod i gasgliadau Defnyddio sgiliau rhif Rh2: darllen/ysgrifennu rhifau Rh10: canrannau Rh13: lluosu a rhannu Rh15: amcangyfrif drwy dalgrynnu Rh18: elw a gwerth am arian Defnyddio sgiliau data D3: dehongli data</p> <p>Llythrennedd Llafaredd LLS5: archwilio sefyllfaoedd gwahanol drwy chwarae rôl LLG1: gwranddo ar eraill LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Ysgrifennu YY1: ysgrifennu at ddibenion gwahanol YS5: defnyddio nodweddion a diwyg sydd wedi'u llunio er mwyn cyflwyno data a syniadau'n glir YI2: defnyddio geiriau penodol sy'n ymwneud â phwnc eu hysgrifennu</p>
---	--	--

Gweithgareddau pellach a awgrymir

- Trefnwch noson oriel ar gyfer rhieni/gofalwyr yn yr ysgol. Dyluniwch bosteri i hysbysebu'r digwyddiad. Trefnwch/darparwch/gwerthwch luniaeth. Cofnodwch pwy sydd wedi prynu pa waith celf (wedi'i fframio/heb ei fframio). Rhowch gyfle i'r disgyblion gymryd yr arian a rhoi newid ac ati.
- Ymchwiliwch i effaith dynol ar y tir a'r amgylchedd – cadarnhaol a negyddol.
- Crëwch ardd ar dir yr ysgol. Gwnewch benderfyniadau plannu yn seiliedig ar liw, patrwm a chymesuredd. Tynnwch ffotograffau drwy gydol y tymhorau i arsylwi newidiadau. Rhowch y lluniau ar feddalwedd animeiddio/cyflwyno.

Asesu mewn perthynas â'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd

Gallai'r dysgwyr arddangos nifer o elfennau ac agweddau ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wrth iddynt wneud y gweithgaredd hwn. Rhestrir y prif feysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn y tablau isod.

Llythrennedd			
Llinyn	Elfen	Agwedd	
Llafaredd ar draws y cwricwlwm	Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	
		Gwranddo	
		Cydweithio a thrafod	
Darllen ar draws y cwricwlwm	Dod o hyd i wybodaeth, ei dewis a'i defnyddio	Strategaethau darllen	
		Darllen a deall	
		Ymateb a dadansoddi	
Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm	Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	
		Strwythur a threfn	
	Ysgrifennu'n gywir	laith	
		Cystrawen; Atalnodi; Sillafu; Llawysgrifen	

Rhifedd		
Llinyn	Elfen	
Datblygu ymresymu rhifyddol	Adnabod prosesau a chysylltiadau	
	Cynrychioli a chyfathrebu	
	Adolygu	
Defnyddio sgiliau rhif	Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau	
	Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb	
	Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig	
	Amcangyfrif a gwirio	
	Rheoli arian	
Defnyddio sgiliau mesur	Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd	
	Amser	
	Tymheredd	
	Arwynebedd a chyfaint; Ongl a safle	
Defnyddio sgiliau data	Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau	